PAPUR TYSTIOLAETH LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU AR CYLLIDEBU AR GYFER PLANT

Y PWYLLGOR PLANT A PHOBL IFANC

Diben
Cafodd y papur hwn ei baratoi er mwyn diweddaru Aelodau'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ynghylch y gwaith sydd wedi'i wneud hyd yma ar gyllidebu ar gyfer plant.

Crynodeb yw'r papur hwn o hynt y gwaith a wnaed hyd yma a dylid cydnabod hynny. Cyhoeddir manylion pellach y fethodoleg a ddefnyddir mewn Erthygl Ystadegol ar wahân fydd yn cael ei chyhoeddi yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

Cyflwyniad
Yn 2006, comisynodd Is-bwyllgor y Cabinet ar Blant a Phobl Ifanc ar y pryd waith i weld pa gyfran o gyllideb Llywodraeth y Cynulliad oedd yn cael ei gwario ar blant. Roedd y comisiwn hwnnw yn ymateb i ofyniad am ddeall yr adnoddau sy'n cael eu gwario ar blant er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu polisi a chydymffurfio â dyletswydd o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Plant i adrodd ar swm a chanran y cyllidebau cenedlaethol sy'n cael eu gwario ar blant.

Mae'r gwaith hwn bellach wedi'i ddiwygio a'i ddiweddaru yn unol â data mwy diweddar. Mae'n darparu ffigurau alldro diwygiedig ar gyfran cyllideb Llywodraeth y Cynulliad sy'n cael ei gwario ar blant yn 2005-06, ffigurau ar gyfer 2006-07 ac am y tro cyntaf, amcangyfrifon ar gyfer cyfran y gwariant ar blant yn y cyfnod 2007-08 hyd at 2010-11.

Yn gyffredinol, dyranwyd 28% o wariant Llywodraeth y Cynulliad yn 2006-07 ar gyfer plant, o'i gymharu â 29% ar gyfer 2005-06, sef £4.4 biliwn yn 2006-07 o'i gymharu â £4.2 biliwn yn 2005-06, fel y dengys Tabl 1. Gan edrych ymlaen, yn seiliedig ar gynlluniau gwariant presennol, rhagamcanir y bydd cyfran y gyllideb a ddyrennir i blant yn dal i fod tua 28%.

Tabl 1: Cyllidebau Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r gwariant a ariennir gan yr awdurdodau lleol eu hunain ar blant

	Alldro		Cyllidebau			
	2005-06	2006-07	2007-08	2008-09	2009-10	2010-11
Alldro/Cyllideb (£biliwn)						
Plant (0-17 oed)	4.2	4.4	4.7	4.9	5.0	5.2
Oedolion	10.4	11.1	11.9	12.4	12.8	13.2
Cyfanswm	14.6	15.5	16.6	17.3	17.8	18.4
Canrannau						
Plant (0-17 oed)	29	28	28	28	28	28
Oedolion	71	72	72	72	72	72

Cyfanswm	100	100		100	100	100	100

Cyllidebau Llywodraeth y Cynulliad sy'n cael eu Gwario ar Blant yn ôl Portffolio'r Gweinidogion

O ran y gwariant yn ôl Portffolio'r Gweinidogion, portffolios Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol a Phlant, Addysg a Dysgu Gydol Oes sy'n gyfrifol am ryw 70% o'r holl wariant ar blant. Mae portffolio Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol yn cynnwys y Grant Cynnal Refeniw i Awdurdodau Lleol. Mae'r grant hwn heb ei neilltuo - hynny yw, nid yw'r Llywodraeth yn pennu sut y dylid ei wario. Rhagdybir bod y gyfran o'r Grant Cynnal Refeniw sy'n cael ei wario ar blant yr un faint â chyfran gyffredinol gwariant yr Awdurdodau Lleol. Nodir yr wybodaeth hon yn Nhabl 2. Mae'n ymddangos bod y duedd hon i'w gweld yn gyson. Mae'r ffigurau'n cynnwys gwariant Llywodraeth y Cynulliad sydd heb ei neilltuo ar gyfer awdurdodau lleol ym mhortffolios y Gweinidogion perthnasol. Er enghraifft, mae cyllid cyfalaf yr ysgolion yn rhan o bortffolio Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau. Mae'n bwysig nodi nad yw'r gwariant a gyllidir gan yr Awdurdodau Lleol eu hunain ar blant yn cael ei gynnwys yn y ffigurau a gyflwynir yn y papur hwn.

Tabl 2: Cyllidebau Llywodraeth y Cynulliad sy'n cael eu Gwario ar blant, yn ôl Portffolio'r Gweinidogion

	Alldro		Cyllidebau			
	2005-06	2006-07	2007-08	2008-09	2009-10	2010-11
Gwariant ar Blant (£bil)						
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	0.5	0.6	0.6	0.6	0.6	0.6
Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol	2.1	2.3	2.4	2.4	2.5	2.6
Yr Amgylchedd, Cynaladwyedd a Thai	0.1	0.1	0.1	0.2	0.2	0.2
Yr Economi a Thrafnidiaeth	0.2	0.2	0.3	0.3	0.3	0.3
Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau	0.4	0.5	0.5	0.6	0.6	0.6
Arall	0.1	0.2	0.2	0.2	0.2	0.2
Cyfanswm	3.6	3.8	4.1	4.2	4.3	4.5
Alldro/Cyllidebau (£bil)						
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	4.9	5.2	5.5	5.7	5.9	6.1
Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol	3.7	4.0	4.2	4.3	4.4	4.5
Yr Amgylchedd, Cynaladwyedd a Thai	0.6	0.6	0.6	0.7	0.7	0.7
Yr Economi a Thrafnidiaeth	1.3	1.3	1.5	1.5	1.6	1.6
Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau	1.6	1.7	1.9	2.0	2.0	2.1
Arall	0.6	0.6	0.7	0.7	0.8	0.8
Cyfanswm	12.6	13.4	14.4	14.9	15.3	15.7
Cyfran y gyllideb/gwariant ar blant (y cant)						
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	11	11	11	11	11	11
Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol	57	56	56	56	57	57
Yr Amgylchedd, Cynaladwyedd a Thai	26	24	23	24	24	24
Yr Economi a Thrafnidiaeth	19	17	18	18	18	19
Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau	28	28	28	28	28	27
Arall	25	25	25	25	25	25
Cyfanswm	29	28	28	28	28	28
Cyfran poblogaeth Cymru sy'n 17 oed neu iau	22	22	21	21	21	21

Mae'r dadansoddiad o wariant Llywodraeth y Cynulliad fesul plentyn yn rhoi darlun cadarnhaol. Fel y nodir isod yn Nhabl 3, bu cynnydd yn y gwariant fesul plentyn o £5,600 yn 2005-06 i £5,900 yn 2006-07. Rhagamcanir y bydd yn codi i £7,100 erbyn 2010-11. Mae hyn yn bennaf oherwydd bod cynnydd gwirioneddol yn y gwariant portffolio wedi'i gynllunio. Er hynny, rhagwelir y bydd rhywfaint o ostyngiad yn y boblogaeth rhwng 0 - 17 oed, o 646,018 yn

2005-06 i 626,587 yn 2010-11, sy'n cyfrannu at y cynnydd rhagamcanol cyffredinol. (Pe byddai'r amcanestyniadau poblogaeth yn gyfartal, rhagwelir y byddai'r gwariant ar gyfer pob plentyn yn codi o £5,900 yn 2006-07 i £6,900 yn 2010-11).

Tabl 3: Gwariant Cyllidebau Llywodraeth y Cynulliad fesul Plentyn

Cyfanswm

	Alldro		Cyllidebau			
	2005-06	2006-07	2007-08	2008-09	2009-10	2010-11
Gwariant ar Blant (£000)						
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	0.8	0.9	0.9	1.0	1.0	1.0
Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol	3.2	3.5	3.7	3.8	3.9	4.1
Yr Amgylchedd, Cynaladwyedd a Thai	0.2	0.2	0.2	0.3	0.3	0.3
Yr Economi a Thrafnidaeth	0.4	0.3	0.4	0.4	0.5	0.5
Plant, Addysg , Dysgu Gydol Oes a Sgiliau	0.7	0.7	0.8	0.9	0.9	0.9
Arall	0.2	0.3	0.3	0.3	0.3	0.3
Cyfanswm	5.6	5.9	6.4	6.6	6.9	7.1

Cymariaethau â gwledydd eraill yn y DU

Nid oes cymariaethau â gwledydd eraill yn y DU ar gael gan mai Cymru yw'r unig wlad yn y DU sy'n paratoi amcangyfrif o swm a chyfran y gyllideb sy'n cael eu gwario ar blant.

Nodiadau ar y fethodoleg

Yn fras, ceir manylion y fethodoleg a ddefnyddir isod.

Mae cyfran o'r holl Linellau Gwariant yn y Gyllideb wedi'i dyrannu mewn un o dair ffordd:

Yn uniongyrchol. Rhagdybir y bydd y plant (0 - 17 oed) yn elwa gant y cant ar Linellau Gwariant yn y Gyllideb sydd wedi'u hanelu'n uniongyrchol atynt. Felly, mae'r Llinell Gwariant yn y Gyllideb gyfan wedi'i dyrannu i blant.
Yn anuniongyrchol. Mae'r Llinellau Gwariant hynny sydd wedi'u hanelu at y boblogaeth yn gyffredinol yn defnyddio dadansoddiad o'r boblogaeth i weld faint o'r Llinell Gwariant sy'n cael ei dyrannu i blant.
Defnyddio data ystadegol. Y Llinellau Gwariant hynny lle ceir data ar eu cyfer (gyda dadansoddiad yn ôl oed).

Cytunodd y meysydd busnes adrannol ar y penderfyniad ynghylch pwy sy'n elwa ar bob Llinell Wariant.

Rhagdybir mai'r un gyfran o'r Grant Cynnal Refeniw sy'n cael ei wario ar blant â'r gyfran gyffredinol o wariant yr Awdurdodau Lleol ar blant.

Mae'r dadansoddiad o ffigurau 2007-08 yn seiliedig ar gyllidebau a bydd yn cael ei ddiweddaru i adlewyrchu'r gwariant gwirioneddol pan gaiff y dadansoddiad hwn ei gynnal eto y flwyddyn nesaf.

Cyhoeddir y fethodoleg fanwl mewn Erthygl Ystadegol yn 2009.

Jane Hutt AC,
Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau